# YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, Ann Griffith, John Griffith, Ken Hughes, Victor Hughes, Richard O. Jones |
| **WRTH LAW:** | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (NJ)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (Priffyrdd) (RE)<br>Cymhorthydd Gweinyddol / Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Alwyn Rowlands, Vaughan Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Aelod Lleol: Cynghorydd T Ll Hughes |

---

**46C263M – Cais llawn i leoli 11 caban pren i bwrpasau gwyliau, adeiladu mynedfa newydd a thirlunio ym Maes Carafanau Ty'n Towyn, Lôn St Ffraid, Trearddur**

Ymwelwyd â'r safle ar argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2014.

Edrychodd yr Aelodau ar y safle arfaethedig oedd ar dir heb ei ddatblygu ger ffordd y B4545, sef y brif lôn gyswllt rhwng Y Fali a Threarddur.

Rhoddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli a Datblygu adroddiad manwl ar y lleoliad gan ddangos cynllun graddfa o'r cynnig i'r Aelodau. Eglurodd bod yr 11 caban pren wedi eu bwriadu fel llety gwyliau. Eglurodd y Swyddog bod Adroddiad Ecolegol wedi ei wneud ac y cafwyd cytundeb hefyd ar gynllun rheoli i'r ardal. Yng nghyswllt tirlunio, eglurodd y byddai ponciau'n cael eu codi ar naill ochr y fynedfa er mwyn sgrinio'r safle arfaethedig.

Cyfeiriodd y Swyddog at gais blaenorol am 51 caban pren ar y safle ac a oedd wedi ei ganiatáu ond oedd wedi ei dynnu'n ôl ers hynny. Roedd y cais hwnnw'n cynnwys ffordd fynedfa newydd i Barciau Carafan Ty'n Towyn a Bagnol ar hyd y fynedfa newydd arfaethedig i'r datblygiad presennol o 11 caban pren a hynny'n arwain at gau'r fynedfa bresennol ar Ffordd Ravenspoint. Eglurwyd bod y cais presennol yn edrych i gael mynedfa debyg i wasanaethau'r 11 caban pren oedd yn awr yn cael eu cynnig.

Edrychwyd ar y safle hefyd o leoliad ar ochr y ffordd ger y fynedfa i'r safle a dangoswyd cynllun graddfa o'r datblygiad arfaethedig i'r Aelodau.

Eglurodd y Swyddog Rheoli Datblygu Priffyrdd beth oedd natur y gyffordd arfaethedig a'r lleiniau gweledfedd. Eglurodd y byddai lefel y ffordd yn cael ei chodi i fyny at lefel bresennol y gerbydlon. Cyflwynodd y Swyddog gynllun graddfa i'r Aelodau yn dangos y ffordd fynedfa newydd arfaethedig gan egluro y byddai i'r ffordd radiws o 15 metr yn y fynedfa gyda'r waliau wedi eu gosod yn ôl.

**Y CYNGHORYDD W T HUGHES**
**CADEIRYDD**